

1. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

Sicrhau fod CGB Gwynedd yn cael ei fabwysiadu'n llawn fel offeryn gan holl adrannau yr holl gyrff partneriaethol.

1. Sicrhau fod holl ardaloedd cynefin CGB Gwynedd wedi eu hamddiffyn drwy foddau statudol neu anstatudol.
2. Hyrwyddo defnydd o hadau a phlanhigion o darddiad lleol mewn cynlluniau plannu.

2. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Camau	Partner(iaid) ¹
1	Sicrhau fod CGB Gwynedd, a safleoedd Bywyd Gwyllt, yn cael eu hystyried fel arweiniad cynllunio atodol o fewn y CDU TARGED/AMSERLEN: O fewn y drafft ymgynghorol, 2005	CG, Partneriaid perthnasol
2	Sicrhau fod rhywogaethau a'u cynefin cysylltiedig o fewn CGB Gwynedd yn cael eu llwyr ddiogelu drwy'r system gynllunio drwy gynnwys polisiau ac amcanion cysylltiedig â bioamrywiaeth addas o fewn CDU Gwynedd TARGED/AMSERLEN: O fewn y drafft ymgynghorol, 2005	CG, Partneriaid perthnasol
3	Sicrhau fod amcanion cysylltiedig â bioamrywiaeth wedi eu cynnwys o fewn Strategaeth Cymunedol Gwynedd TARGED: Erbyn diwedd 2004	CG, Partneriaid perthnasol
4	Sicrhau fod y CGBL yn cael ei ystyried yn holl ddogfennau polisi perthnasol y partneriaethau perthnasol, e.e. cynlluniau AAC, strategaethau YG TARGED/AMSERLEN: I'w osod,Cyfredol,	CG, Partneriaid perthnasol
5	Hybu adrannau perthnasol CG i reoli parciau cefn gwlad, gwarchodfeydd natur lleol, traciau beicio, llwybrau troed a manau eraill dan reolaeth CG er lles bioamrywiaeth drwy gynnig cyngor a chymorth i ddatblygiad elfennau bioamrywiaeth o gynlluniau rheolaeth TARGED: Cysylltu gyda holl adrannau erbyn diwedd 2006.	CG
6	Cefnogi dynodi safleoedd addas fel SDGN. TARGED/AMSERLEN: I'w osod,Cyfredol	CCGC, CG
7	Parhau gyda datblygiad system Safle Bywyd Gwyllt i Wynedd mewn cydweithrediad a phartneriaid perthnasol. TARGED/ AMSELEN: cychwyn y broses o ddynodi erbyn 2005	CG, YBGCC
8	Nodi fod raid i hadau / blanhigion fod o darddiad lleol (os yw hynny'n bosib) o fewn pob caniatâd cynllunio ble mae angen tirlunio / adfer cynefin. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG
9	Nodi fod raid i hadau / blanhigion fod o darddiad lleol (os yw hynny'n bosib) fel amod o bob pecyn grant sydd wedi ei gyllido neu ei weinyddu gan gyrff sy'n bartneriaid. TARGED/AMSERLEN: Cyfredol	CG, CCGC, AAC, CCTh, Partneriaid perthnasol

3. PARTNERIAID A CHYFLEON

3.1 Prif bartner ar gyfer CGP

Cyngor Gwynedd (CG)

¹ Y prif bartner ar gyfer y gweithredu yma wedi ei nodi gyda ysgrifen dywyll,gweler adran3.2 am glurhad o byrfoddau

3.2 Partneriaid allweddol

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

Comisiwn Coedwigaeth (CCth)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (YBGGC)

4. DIOLCHIADAU

Prif awdur: Tîm Bioamrywiaeth (CG)

Ymgynghorwyr: Chris Wynne (YBGGC), Dafydd Jarrett (NFU Cymru)

5. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBL: CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol; YG:

Ymddiriedolaeth Genedlaethol, CDU: Cynllun Datblygu Unedol, SoDGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig